Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i ymgeiswyr

**Mawrth 2022**

# Cynnwys

Cyflwyniad 2

Llwch 3

Mewnblaniadau 4

Eich hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4) 5

Y dystysgrif feddygol 6

Os nad ydych am archwilio'r dystysgrif feddygol eich hun 6

Ble gallwch chi archwilio’r dystysgrif feddygol 7

Os oes gennych bryderon difrifol am y farwolaeth 7

Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi 8

# Cyflwyniad

1. Rydych yn gwneud cais i amlosgi gweddillion unigolyn sydd wedi marw. Bydd eich amlosgfa neu'ch trefnydd angladdau yn gallu rhoi gwybod i chi beth fydd yn digwydd a gallant eich helpu i lenwi'r ffurflen gais a threfnu unrhyw ffurflenni eraill sy'n ofynnol.

2. Mae'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â 3 elfen o'r broses ymgeisio:
   - rhoi cyfarwyddiadau i'r amlosgfa ynghylch beth ddylai ddigwydd gyda'r llwch yn dilyn yr amlosgiad
   - rhoi gwybod am bresenoldeb mewnblaniadau
   - eich hawliau i archwilio'r dystysgrif feddygol amlosgi cyn i'r amlosgi ddigwydd

3. Mae ffurflenni cais yn Gymraeg a fersiwn Gymraeg o'r canllawiau hyn ar gael yn www.gov.uk/government/collections/formlenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi.

# Llwch

4. Ar ôl i'r amlosgi ddigwydd, bydd yr holl weddillion yn cael eu tynnu o'r amlosgwr. Bydd unrhyw fetel yn cael ei dynnu a bydd y lludw yn cael ei leihau i ronynnau mân/cwrs.

5. Mewn rhai amgylchiadau prin iawn, megis wrth amlosgi babis bach iawn neu rannau o'r corff, efallai y bydd risg mai ychydig iawn o lwch neu ddim o gwbl fydd yn cael ei adfer ar ôl yr amlosgi. Mae technoleg fodern ac arferion gwell wedi lleihau'r risg hon yn sylweddol. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y lludw a fydd yn cael ei adfer ar ôl yr amlosgi, codwch y rhain gyda'ch trefnydd angladdau neu'ch amlosgfa. Efallai yr hoffech ystyried dewisiadau eraill heblaw amlosgi gyda'ch trefnydd angladdau neu'ch amlosgfa.

6. Pan fyddwch yn gwneud cais am amlosgi, gofynnir i chi beth yr hoffech ei weld yn digwydd i'r llwch. Gallwch chi neu rywun a enwebir gennych chi, gan gynnwys eich trefnydd angladdau, gasglu'r rhain. Fel arall, efallai y bydd gan yr amlosgfa ddewisiadau ar gael ar gyfer gosod y llwch i orffwys ac ar gyfer cofebion. Dylech gadarnhau pa wasanaethau sydd ar gael naill ai'n uniongyrchol gan amlosgfa neu gan eich trefnydd angladdau cyn nodi eich cyfarwyddiadau yn Opsiwn 1: yn Rhan 6 *Lludw i'w wasgaru / claddu / ymdrin â hwy fel arall gan yr amlosgfa.*

7. Fodd bynnag, efallai na fyddwch yn dymuno penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch wrth wneud eich cais. Os felly, dylech ddewis Opsiwn 3: yn Rhan 6: *Llwch i'w gadw yn aros am eich penderfyniad.* Wrth ddewis yr opsiwn hwn, dylech nodi dyddiad neu gyfnod o amser ar gyfer penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch. Mae angen i chi fod yn ymwybodol y gall yr amlosgfa godi tâl am gadw'r llwch ar ôl cyfnod penodol. Gall yr amlosgfa, neu eich trefnydd angladdau os ydych yn defnyddio un, ddarparu rhagor o wybodaeth.

8. Os ydych yn dymuno newid eich cyfarwyddiadau ynghylch beth ddylai ddigwydd i'r llwch, neu ddarparu cyfarwyddiadau sy'n gofyn am i'r llwch gael ei gadw gan yr amlosgfa, dylech wneud hynny'n ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at yr amlosgfa a wnaeth yr amlosgi. Os bydd eich manylion cyswllt yn newid ar ôl i chi wneud cais am yr amlosgi, dylech roi gwybod i'r amlosgfa. Efallai y gallwch wneud hyn drwy eich trefnydd angladdau.

9. Os nad yw'r llwch, am ba reswm bynnag, yn cael ei gasglu yn unol â'r cyfarwyddiadau neu os na roddir cyfarwyddiadau i'r awdurdod amlosgi ynghylch sut y dylid ymdrin â'r llwch, yr awdurdod amlosgi sy'n gyfrifol am naill ai claddu neu wasgaru'r llwch yn yr amlosgfa neu dir claddu. Ond cyn gwneud hynny rhaid i'r amlosgfa wneud ymdrechion rhesymol i roi 14 diwrnod o rybudd o'u cynlluniau i chi.

10. Os, ar ôl derbyn hysbysiad bod yr awdurdod amlosgi'n bwriadu claddu neu wasgaru'r llwch ac nad ydych am i hyn ddigwydd, gallwch roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig gwahanol, naill ai'n uniongyrchol i'r amlosgfa neu drwy eich trefnydd angladdau, ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch. Byddai angen i'r amlosgfa dderbyn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig cyn i'r cyfnod hysbysu 14 diwrnod ddod i ben.

# Mewnblaniadau

11. Efallai yr hoffech feddwl a oedd unrhyw fewnblaniadau wedi cael eu gosod yn ystod bywyd y person sydd wedi marw. Y rheswm am hyn yw y gall rhai mewnblaniadau achosi niwed i beiriannau gan gynnwys yr amlosgwr, a gallant hyd yn oed fod yn risg iechyd a diogelwch difrifol os byddant yn ffrwydro yn ystod y broses o amlosgi. Dylech nodi bodolaeth unrhyw fewnblaniadau a allai fod yn beryglus ar y ffurflen gais yng nghwestiwn 10. Ceir rhestr o fewnblaniadau a allai fod yn beryglus yn Atodiad A.

# Eich hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4)

12. Mae Rhan 5 y ffurflen gais yn ymdrin â'ch hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol. Dylai'r trefnydd angladdau fod wedi esbonio hyn yn iawn i chi, ond efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen amdano hefyd. Ni fydd tystysgrif feddygol yn bodoli pan fydd marwolaeth wedi cael ei chyfeirio at grwner. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd eich cais yn cael ei gefnogi gan ffurflen Amlosgi 6 a lenwir gan y crwner. Nid oes hawl i archwilio'r ffurflen hon.

13. Ar ôl i chi wneud eich cais cewch gyfle i arfer eich hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol a gwblhawyd gan y meddyg sy'n nodi achos marwolaeth yr ymadawedig (ffurflen Amlosgi 4). Bydd ffurflen Amlosgi 4 yn cael ei harolygu cyn i'r amlosgi gael ei awdurdodi gan y canolwr meddygol (y meddyg sy'n gysylltiedig â'r amlosgfa).

# Y dystysgrif feddygol

14. Llenwir tystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4) gan y meddyg a fu'n trin y sawl a fu farw yn ystod ei salwch diwethaf.

15. Os ydych yn gwybod achos y farwolaeth ac nad oes gennych unrhyw bryderon yn ei chylch, efallai y byddwch yn penderfynu mai ychydig iawn o reswm sydd dros fod angen i chi archwilio'r dystysgrif feddygol hon. Fodd bynnag, os oes gennych amheuon neu os cawsoch eich synnu bod y farwolaeth wedi digwydd pan ddigwyddodd y farwolaeth (ac nad yw'r farwolaeth wedi cael ei chyfeirio at grwner yn barod), efallai y byddwch yn penderfynu y byddech yn dymuno arfer eich hawl i archwilio'r dystysgrif feddygol.

16. Os yw ymchwiliad crwner wedi digwydd, neu os yw'n cael ei gynnal, i achos y farwolaeth, nid oes angen cwblhau'r dystysgrif feddygol. Fodd bynnag, bydd angen caniatâd y crwner er mwyn i'r amlosgi ddigwydd a bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy lenwi ffurflen Amlosgi 6.

# Os nad ydych am archwilio'r dystysgrif feddygol eich hun

17. Gallwch enwebu rhywun arall i archwilio'r dystysgrif feddygol ar eich rhan. Efallai y byddwch am wneud hyn, er enghraifft, os ydych chi'n meddwl y byddai rhywun arall mewn sefyllfa well i fynd drwy'r dystysgrif (efallai oherwydd bod y person hwnnw'n bresennol adeg y farwolaeth ac nad oeddech chi).

# Ble gallwch chi archwilio’r dystysgrif feddygol

18. Bydd y tystysgrifau meddygol ar gael i chi eu harchwilio yn swyddfa’r amlosgfa am hyd at 48 awr ar ôl i chi gael gwybod eu bod wedi cyrraedd yno. Mae’n bwysig y gellir cysylltu â chi yn ystod y cyfnod hwn.

19. Pan fyddwch yn mynd i’r amlosgfa i archwilio’r tystysgrifau, efallai y gall y canolwr meddygol roi cyngor i chi ynghylch achos y farwolaeth, ond dylech fod yn ymwybodol y gall godi ffi am y gwasanaeth hwn. Gan fod y canolwr yn aml hefyd yn feddyg sy’n gweithio, bydd angen i chi ystyried hyn wrth drefnu amser y cyfarfod.

20. Os bwriedir cynnal yr angladd o fewn y ddau neu dri diwrnod dilynol, gallai fod yn anodd ceisio cyngor pellach gan y canolwr meddygol yn ogystal ag archwilio’r tystysgrifau meddygol.

# Os oes gennych bryderon difrifol am y farwolaeth

21. Os oes gennych bryderon difrifol am achos y farwolaeth a'ch bod yn credu y dylai crwner ymchwilio i'r achos, dylech gysylltu â swyddfa'r crwner ar unwaith. Bydd eich trefnydd angladdau yn gallu rhoi manylion cyswllt ac unrhyw gymorth arall. Os oedd y farwolaeth yn annaturiol neu’n dreisgar, neu os ydych chi’n amau ei bod o ganlyniad i unrhyw glefyd diwydiannol, dylai fod wedi cael ei chyfeirio at grwner eisoes gan feddyg neu gan yr heddlu.

# Atodiad A – Mewnblaniadau pŵer batri a mewnblaniadau eraill a allai achosi problemau wrth amlosgi

Rheolydd calon

Diffibrilwyr Diffibriliwr Cardiaidd (ICDs)

Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs)

Cofnodwyr dolenni mewnblanadwy

Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs)

Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol

Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol)

Symbylwyr twf esgyrn

Siyntau hydroceffalws y gellir eu rhaglennu

Hoelion gosod

Unrhyw fewnblaniad arall sy'n defnyddio batri neu sy'n cynnwys pwysedd

Mewnblaniadau ymbelydrol

Triniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i
coroners@justice.gov.uk